COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 14eg o RAGFYR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Bedwyr Gwilym

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Erwyn Jones, Annwen Daniels, Mel Goch ap Meirion, Will G. Roberts, Mark Thomas, Ronwen D Roberts, Glyn Daniels ac Elin Roberts.

10044/12/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Mari Rees a Rory Francis

10045/12/17 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Will G Roberts	**10049/12/17**	**John Roberts (Ffestiniog) Ltd**
Cynghorydd Will G Roberts	**10051/12/17**	**Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Annwen Daniels	**10051/12/17**	**Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Annwen Daniels	**10059/12/17**	**Y Dref Werdd**
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion	**10059/12/17**	**Y Dref Werdd**
Cynghorydd Mark Thomas	**10059/12/17**	**Y Dref Werdd**

10046/12/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth brys

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10047/12/17 MATERION YR HEDDLU
Ni fu aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10048/12/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 9fed TACHWEDD 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio

10049/12/17 CYFRIFON I'W TALU
DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Will G Roberts **John Roberts (Ffestiniog) Ltd**

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	105.88	Rhif Siec.	002476
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002520

National Pen (Defnydd hyrwyddo)	£	96.54	Rhif Siec.	002521
John Roberts (Ffestiniog) Ltd (Y Parc)	£	1077.60	Rhif Siec.	002522
Blachere Illumination (Goleuadau Nadolig)	£	15073.56	Rhif Siec.	002523
Owain Aeron (Torri gwair)	£	870.00	Rhif Siec.	002524
Dylan Jones (Mân waith)	£	280.00	Rhif Siec.	002525
J P Farrington (Garddio)	£	1985.00	Rhif Siec.	002526
Viking Direct (Defnydd Swyddfa)	£	154.81	Rhif Siec.	002527
Arian Parod	£	150.00	Rhif Siec.	002528
BT (Ffôn)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod a'r bil am glirio'r eira oddi ar y palmentydd os bydd i law cyn y Nadolig.

10050/12/17 ARIAN I MEWN

NatWest (Ad-daliad llogau) £ 1469.10

10051/12/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Will G Roberts **Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**
Cynghorydd Annwen Daniels **Cais Cynllunio C17/1191/03/LL**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/791
   Ymgeisydd: Edward Parry
   Talarfor
   Ffordd Heulog
   Ffestiniog
   Adeiladu garej yn lle'r adeilad allanol presennol
   Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C17/1192/03/LL
   Ymgeisydd: Co-operative Food
   Co-op
   Blaenau Ffestiniog
   Gosod ac amnewid unedau oeri allanol i gefn y safle ynghyd a gwaith peintio'r adeilad
   Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif C17/1191/03/LL
   Ymgeisydd: Mr L Hughes
   Gwaith Setts
   Manod
   Blaenau Ffestiniog
   Codi tŷ deulawr newydd ar gyfer angen lleol ar safle eithrio (cais diwygiedig i gais blaenorol a wrthodwyd o dan gyfeirnod C17/0323/03/LL)
   Cais ddim i law

4. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/789
Ymgeisydd: Ffion Williams
2 Maes y Coed
Ffestiniog
Dymchwel y garej ar wahân ac adeiladu estyniad deulawr a garej ar yr ochr
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0989/03/LL
Ymgeisydd: Mr J Fatimelihin
Wynnes Arms
Manod
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer newid defnydd o dŷ tafarn i swyddfeydd (B1) ynghyd a chreu llefydd parcio
Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0989/03/LL
Ymgeisydd: Mr J Fatimelihin
Wynnes Arms
Manod
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer newid defnydd o dŷ tafarn i un tŷ preswyl hunangynhaliol) ynghyd a chreu llefydd parcio
Caniatáu

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0786/03/LL
Ymgeisydd: Mr & Mrs Clive Spencer
Teiliau Mawr
Cwm Teigl
Blaenau Ffestiniog
Addasu adeilad allanol yn uned gwyliau
Caniatáu

4. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/177G
Ymgeisydd: First Hydro
Gorsaf Bŵer Ffestiniog
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Newid defnydd o dir fel estyniad i safle orsaf bŵer presennol, codi adeilad storfa/gweithdy, creu llain galed ac ail leoli ffens diogelwch
Caniatáu

5. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/LB218B
Ymgeisydd: Ms P Thynne
Fferm Cwm
Cwm Cynfal
Ffestiniog
Cynyddu uchder corn mwg a ffurfio dau agoriad ffenest yn y talcen de gorllewinol; amnewid ffenestr to haearn bwrw am un o fath cadwraeth; newidiadau i'r teras cefn; adfer adeilad allanol; gosod tanc septig a gwely corsen
Caniatáu

6. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/177H
Ymgeisydd: First Hydro
Gorsaf Bŵer Ffestiniog
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Newidiadau arfaethedig ac estyniadau sy'n cynnwys estyniad i'r swyddfa ar y llawr cyntaf, lleoedd parcio ychwanegol, lloches mewn cilfan ar gyfer danfon nwyddau, estyniad i'r adeiladau trosglwyddo ac addasiadau i'r compownd wedi'i amgylchynu a wal
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod

10052/12/17 PWYLLGORAU
Ethol cynghorydd i eistedd ar Bwyllgorau'r Cyngor Tref

PENDERFYNIAD: Nid oedd y Cynghorydd Mari Rees yn bresennol felly ni etholwyd hi ar Bwyllgorau'r Cyngor Tref.

10053/12/17 PWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 16eg Tachwedd 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 16eg TACHWEDD 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Bedwyr Gwilym
Will G Roberts
Glyn Daniels
Annwen Daniels
Mark Thomas
Elin Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Rory Francis
Ronwen D Roberts

DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Annwen Daniels, Tir yn Tan y Manod

1. **Toiledau Diffwys**
Bu i Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd drafod dyfodol toiledau cyhoeddus Diffwys. Mae cyfanswm costau rhedeg y toiledau yn £9704 fel a ganlyn-

Cynnal a Chadw	£1306
Glanhau	£6104
Trydan	£ 258
Trethi	£1229
Dŵr	£ 807

Mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu £4000 y flwyddyn er mwyn eu cael ar agor drwy'r flwyddyn ac mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cyfraniad o £2912 gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau chynnal a chadw'r toiledau. Cafwyd gwybodaeth bydd y ddau weithiwr presennol yn ymddeol diwedd mis Tachwedd.

Gofynnwyd a fyddai'n bosib ymestyn yr oriau agor yn enwedig yn ystod misoedd yr haf a hefyd am gael goleuo'r ffenestri.
Argymell: I ystyried a oes gan y Cyngor Tref diddordeb mewn rhedeg y toiledau cyhoeddus eto pan fydd gwybodaeth parthed costau gosod peiriant 20c yno a gwybodaeth ynglŷn â chymryd y maes parcio drosodd neu ei redeg mewn partneriaeth a Chyngor Gwynedd i law.

2. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae
Argymell: I dderbyn yr adroddiadau

3. **Caeau Chwarae**
Yn dilyn adroddiad RoSPA ar y caeau chwarae yn ddiweddar mae angen man waith ar ambell gae.
Argymell: I symud ymlaen gyda'r holl waith angenrheidiol a'r man atgyweiriadau cyn gynted â modd.

4. Cae Manod
Neilltuwyd arian ym mhraesept y Cyngor am y flwyddyn 2017/2018 ar gyfer adnewyddu'r offer pren ar Gae Manod. Trafodwyd gwahanol fath o unedau modiwlar
Argymell: Wedi trafod yr opsiynau, teimlwyd nad oeddynt yn cynnig beth oedd angen ar gae Manod. I gael pris am offer Marian Glas sydd yn offer llawer mwy mewn maint.

5. Goleuadau Nadolig
Cafwyd gwybodaeth bod goleuadau Nadolig newydd wedi eu harchebu a bod sawl busnes lleol wedi rhoi caniatâd i oleuadau gael eu gosod ar eu hadeiladau.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth

6. Coed Afalau
Cafwyd gwybodaeth bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am roddi grant hyd at £100 i ni ar gyfer prynu mwy o goed afalau gan ein bod yn bwriadu eu plannu o fewn hanner milltir i ffin y Parc.
Argymell: I dderbyn y wybodaeth

7. Cais Cynllunio
Cais Cynllunio Rhif C17/1085/03/HY
Ymgeisydd Co-op Food
Y Co-op
Blaenau Ffestiniog
Amrywiol arwyddion gan gynnwys arwyddion ffasgia ac arwydd totem wedi eu goleuo
Dim Gwrthwynebiad

8. Tir yn Bethania
Bu i Cartrefi Cymunedol Gwynedd ofyn i'r Cyngor Tref wneud tendr ar gyfer tir ym Methania a rhoddwyd tendr o £1 i mewn ar gyfer y ti. Erbyn hyn mae'r asiant wedi dod yn ol a dweud bod CCG yn awyddus i'r Cyngor Tref brynu'r tir i'r gymuned er nad tir yn dda i fawr o ddim ond fel tir pori. Gofynnir i'r Cyngor Tref dalu'r costau ynghlwm a'r pryniant sydd yn gwneud cyfanswm o £1240 cyn TAW
Argymell: I drafod prynu'r tir ymhellach mewn cyfarfod i'w gynnal 23ain o Dachwedd yn y Siambr am 7.00 o'r gloch pan fydd mwy o wybodaeth i law.

9. Adeilad y Cyngor
Bu i'r Cynghorwyr drafod manteision o geisio prynu'r adeilad. Cyngor Dinesig Ffestiniog oedd perchen yr adeilad cyn ail drefniant llywodraeth leol yn y 70'au gyda threthdalwr yr ardal wedi talu'r pris o £1000 am yr adeilad bron i gan mlynedd yn ôl. Fe drosglwyddwyd

holl asedau Cyngor Dinesig Ffestiniog i Gyngor Dosbarth Meirionnydd ac yna i Gyngor Gwynedd a bu i Gyngor Gwynedd werthu'r adeilad tua 12 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn Antur Stiniog i'w perchnogion yr adeilad. Cafwyd gwybodaeth bod Antur Stiniog yn chwilio am bris dros £200,000 am yr adeilad yn ei gyflwr presennol.
Argymell: I wneud ymholiadau pellach.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio.

10054/12/17 PWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 23ain Tachwedd 2017

Bu i'r Cynghorydd Annwen Daniels ymddiheuro am ei methiant yn y cyfarfod hwn i Ddatgan Diddordeb yn ystod y drafodaeth ar Dir yn Tan y Manod

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 23ain TACHWEDD 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Bedwyr Gwilym – yn cofnodi
Will G Roberts
Glyn Daniels
Annwen Daniels
Mark Thomas

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Elin Roberts
Ronwen D Roberts
Clerc y Dref

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Prynu offer i Gae Manod**
Yr oedd dyfynbris wedi ei dderbyn gan G L Jones ar gyfer offer o'r enw Marian Glas.
Argymell: Gohirio gwneud penderfyniad ar brynu offer newydd er mwyn galluogi rhagor o ymchwil mewn i offer chwarae "man made timber" gan gwmni o'r enw Marmax Recycled Products, fel sydd yn Nhalysarn.

2. Glanhau matiau diogelwch:
Yr oedd dyfynbris wedi ei dderbyn ar gyfer glanhau matiau diogelwch ym mhob cae chwarae.
Argymell: I dderbyn y dyfynbris gan ofyn am daflen yn unol â rheolau COSH ar gyfer pob cemegydd sydd yn cael ei ddefnyddio.

3. **Tir Tan y Manod:**
Cafwyd wybod gan Gynghorydd y Ward bod trigolion sydd yn byw ger y tir sydd ar werth gan CCG yn erbyn y syniad o greu rhandiroedd ar y safle, gan y byddai rhagor o geir yn defnyddio'r ffordd, sydd yn gul ac nad oes digon o le i geir ychwanegol barcio. Er y gwrthwynebiad i randiroedd, adroddwyd bod trigolion lleol yn croesawu'r syniad o sefydlu perllan ac wedi cynnig gwirfoddoli gyda'r plannu.
Cafwyd wybod gan Gynghorydd y bod llysiau'r dial ar y safle, ond bod y planhigyn wedi ei drin. Trafodwyd costau o gynnal a chadw'r tir, gan y byddai angen gosod ffens newydd yn y dyfodol a bod posibilrwydd o gostau yn ymwneud a thrwsio draeniau.

Argymell: I beidio symud ymlaen a phrynu'r tir, gan fod y costau ynghlwm a'r pryniant yn uwch nac y disgwylid pan gyflwynwyd y tendr, yn sgil penderfyniad CCG fel y gwerthwr i'r prynwr dalu holl gostau'r gwerthwr, sydd oddeutu £1,200 + TAW, ac oherwydd y potensial o gostau parhaol i'r trethdalwr.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio.

10055/12/17 PWYLLGOR ADNODDAU

Penodi dyddiad ar gyfer Pwyllgor Adnoddau i drafod argymhellion ar gyfer praesept 2018/19

PENDERFYNIAD: I gynnal Pwyllgor Adnoddau nos Fawrth 9fed o Ionawr 2018 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

10056/12/17 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Annwen Daniels

'Bod y Cyngor Tref yn neilltuo arian o fewn y praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn cefnogi clybiau ieuenctid yr ardal yn y dyfodol .'

Gofynodd y Cynghorydd Annwen Daniels am ganiatad i ychwanegu'r geiriau ' os bydd raid' a chaniatawyd hyn.

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Elin Roberts a bydd manylion pellach yn cael eu trafod yn ystod y Cyfarfod Anarferol i osod y braesept ym mis Ionawr 2018.

10057/12/17 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Ronwen Roberts

'Dylai Gyngor Tref Ffestiniog mynd ati i geisio a nodi safleoedd yn yr ardal sydd yn eiddo neu'n cael eu gweinyddu gan y Cyngor sydd yn addas ar gyfer plannu coed i gyd-fynd â pholisi presennol Llywodraeth Cymru ac felly yn darparu buddion gwirioneddol gymdeithasol a chymunedol hir dymor.'

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Annwen Daniels a bydd y Cyngor Tref yn ceisio nodi safleoedd addas.

10058/12/17 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Ronwen Roberts

'Bod y Cyngor Tref yn gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried cael y Clippa yn mynd i Dalwaenydd ambell waith y dydd wrth osod eu tendrau newydd. Byddai hyn o les i bobl Talwaenydd, gweithwyr Llechwedd ac ymwelwyr.'

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Glyn Daniels. I holi Cyngor Gwynedd os yw teithio i Dalwaenydd yn rhan o'r tendr presennol. Mae sawl cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â'r methiant i gael Clippa i Dalwaenydd.

10059/12/17 Y DREF WERDD

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion
Cynghorydd Mark Thomas
Cynghorydd Ronwen D Roberts

Cais gan Y Dref Werdd i'r Cyngor Tref ystyried cyd weithio at y dyfodol i geisio plannu coed ar hyd Bro Ffestiniog

PENDERFYNIAD: Cytunwyd i gyd weithio gyda'r Dref Werdd i geisio plannu coed ar hyd Bro Ffestiniog

10060/12/17 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Erwyn Jones

'Galwaf ar y Cyngor Tref i ystyried, mewn egwyddor i ddarparu iPad neu dabled i bob Cynghorydd Tref.
Byddai hyn yn y pen draw yn arbed arian ar gostau inc a phapur, yn ogystal â gwneud gwaith y Clerc yn fwy effeithlon.
Byddai hefyd yn gwella 'ôl troed carbon' y Cyngor Tref, gan gysidro faint o bapur sydd yn cael ei ddefnyddio pob blwyddyn.
Ac os bydd y Cyngor yn gytûn i ymgorffori hyn yn y braesept 2018/19

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Annwen Daniels a bydd manylion pellach yn cael eu trafod yn ystod y Cyfarfod Anarferol i osod y braesept ym mis Ionawr 2018.

10061/12/17 CWMNI CYMUNEDOL BRO FFESTINIOG

Cais i'r Cyngor Tref ethol cynrychiolydd ar Gwmni Cymunedol Bro Ffestiniog

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Glyn Daniels i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Gwmni Cymunedol Bro Ffestiniog

10062/12/17 YSGOL MANOD

Cais i'r Cyngor Tref ethol cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Manod

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Mark Thomas i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Manod

10063/12/17 ARCHWILYDD CYFRIFON Y CYNGOR TREF

Yn dilyn ymddeoliad Mr John Roberts, mae Luned Fôn Jones sydd yn rhan o dîm archwilio mewnol Cyngor Gwynedd wedi cytuno i gynnig gwasanaeth fel archwilydd mewnol. Ystyried penodi Luned Fôn Jones fel Archwilydd Mewnol y Cyngor Tref.

PENDERFYNIAD: I benodi Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd fel ein harchwilwyr mewnol.

10064/12/17 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth bod y Cadeirydd wedi mynychu agoriad swyddogol Canolfan Coffa yn ddiweddar. Ni chafwyd yr eira ei glirio ger y Ganolfan newydd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Cyngor Gwynedd ynglyn a'r diffyg clirio eira o flaen y Ganolfan.

10065/12/17 TIR YN PENBRYN, CAE BALTIC
Caniatad i symud ymlaen gyda prynnu'r hir yma gan Cyngor Gwynedd

PENDERFYNIAD: Gan ei bod yn edrych fel bod datblygiad o fewn ffin y tir, i ofyn i Gyngor Gwynedd ddiffinio'r terfyn yn bendant cyn arwyddo'r dogfennau.

10066/12/17 CYNGOR GWYNEDD
Rhaglen Waith Rhagfyr 2017
Bryn Rhug Ail godi wal

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10067/12/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL
Cafwyd gwybodaeth i'r Cynghorwyr Erwyn Jones, Annwen Daniels a Glyn Daniels fynychu cyfarfod Pwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol yn ddiweddar. Bu i'r Cynghorydd Annwen Daniels ei hethol yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Tanygrisiau mewn cyfarfod diweddar.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10068/12/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD
Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn wynebu heriau difrifol yn ystod y tair blynedd nesaf.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

10069/12/17 RHEILFFORDD FFESTINIOG
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ANARFEROL O'R CYNGOR TREF
NOS FERCHER 10fed IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 11eg IONAWR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 11eg IONAWR 2018
AR Y 4ydd IONAWR 2018